

Hanes yr achub

“...yr hwn y mae'n rhaid i'r nef ei dderbyn hyd amseroedd adferiad pob peth a lefarodd Duw... erioed.” (adn. 21)

Beth am ddarllen Actau 3:11–26 ac yna myfyrio

Ddoe fe ddaru ni gloi gyda'r dyfyniad: “Mae mawr angen yn yr Eglwys heddiw am athroniaeth Gristnogol Feiblaidd o hanes.” Dywed John Stott fod: “cymaint ohonom mor brysur yn meddwl am newyddion y funud ... nes nad oes lawer o ddim sydd o ddiddordeb i ni yn y gorffennol nac yn y dyfodol. Rydym ni'n methu gweld y coed gan brennau. Mae angen inni sefyll yn ôl er mwyn cael golwg ar holl gyngor Duw, ei bwrpas tragwyddol i brynu pobl iddo'i hun trwy Iesu Grist.”

Does gan rai pobl fawr o amser i'r Hen Destament am eu bod yn ei weld fel hanes. Ond er mwyn deall epig gyffredinol Duw, mae'n rhaid inni sylweddoli nad yn unig yn y canrifoedd ar ôl Crist y mae ef wedi bod ar waith, ond yn y canrifoedd ynghynt hefyd. Gwelai'r hen Roegiaid hanes ar ffurf cylch cyfan heb fod yn mynd i unlle yn arbennig a byth yn cyrraedd nod benodol. Dywedodd G.N. Clarke yn un o'i anerchiadau cyntaf ym Mhrifysgol Caergrawnt: “Nid oes yr un cyfrinach na chynllun i'w darganfod mewn hanes.” Fel hyn yr ysgrifennodd André Maurois, y cofiannydd Ffrengig: “Difater yw'r bydysawd. Pwy a'i creodd? Pam ein bod ni yma ar y domen fwd fach hon sy'n cylchdroi yn nibendrawdod y gofod? Does gen i mo'r syniad lleiaf, ac rwy'n ddigon siŵr nad oes gan neb arall chwaith.”

Duw hanes yw Duw y Beibl – hanes yr Hen Destament yn ogystal â hanes y ddwy fil blynyddoedd ers i Grist droedio'r ddaear. Mae'r Hollalluog, sydd yn ei alw ei hun yn Dduw Abraham, Isaac a Jacob, wedi dewis Israel o bliith llawer o genhedloedd i fod yn bobl ei gyfamod, a daeth atom ni ym mherson ei Fab ar awr a gofnodwyd mewn hanes. Yr hanes mae'r Beibl yn ei alw i gof yw “hanes yr achub”, ac mae'r achubiaeth sy'n cael ei chyhoeddi ynddo wedi cael ei chyflawni trwy ddigwyddiadau hanesyddol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 90:1–4;

1 Cor. 15:20–28

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae'r Salmydd yn ei ddysgu am Dduw a hanes?
2. Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd hanes?

Gweddi

Dad, rwy'n gweld yn eglur mai “hanes yr achub” yw'r hanes a gofnoda dy Air. Rwy'ti wedi bod yn gweithio trwy hanes er mwyn cyflawni dy amcanion. Yn wir, dy hanes di yw hanes i gyd. Diolch iti, fy Nhadau. Yn enw Iesu. Amen.